Benjamin Waugh 1839–1908

Sefydlydd yr NSPCC -
National Society for the Prevention of Cruelty to Children

Ganwyd Benjamin Waugh ar 20 Chwefror 1839 yn Settle, Swydd Efrog, yn fab hynaf i James, a oedd yn gyfrwywr, a Mary. Wedi pum mlynedd o addysg mewn ysgol breifat yn Stretton under Fosse fe'i prentisiwyd fel dilledydd lliain gyda Samuel Boothroyd yn Southport. Yn 1862 aeth i Goleg Airedale, Bradford, i gael ei hyfforddi fel gweinidog Annibynnol. Priododd Sarah Elizabeth Boothroyd ac fe gawsant 12 o blant. Bu'n weinidog yn Newbury (1865–6), Greenwich (1866-85) a New Southgate (1885–7).

Yn y cyfnod hwn roedd problemau difrifol gyda cham–drin plant. Er enghraifft, roedd rhai yn cael babanod ac yna yn eu gwerthu am arian. Roedd eraill yn yswirio plant ac yna yn eu lladd er mwyn cael yr arian. Ymatebodd nifer o bobl i'r creulondeb hwn, yn enwedig Cristnogion fel C. H. Spurgeon, Y Parch. Bowman Stephenson, a'r Dr Tom Barnardo, a sefydlodd gartrefi plant. Ond prif ofid Benjamin Waugh oedd y plant hynny oedd yn cael eu cam-drin gan eu rhieni.

Pan aeth yn weinidog ar eglwys Greenwich ym 1866, fe'i dychrynwyd yn fawr gan y tlodi a'r creulondeb a welodd o'i gwmpas a dechreuodd feddwl am ffyrdd i helpu. Y peth cyntaf a wnaeth oedd agor canolfan ddyddiol i fechgyn digartref. Ym 1873 cyhoeddodd lyfr dylanwadol sef *The Gaol Cradle – Who Rocks it?* Yn hwn roedd yn galw am ddiddymu carcharu plant a sefydlu llysoedd arbennig ar gyfer ieuenctid. Teimlai rwystredigaeth fawr nad oedd deddfwriaeth i atal rhieni rhag cam-drin eu plant. Ond credid ar y pryd ei fod yn fater rhy breifat.

Ym 1881 aeth bancwr o Lerpwl, sef Thomas Agnew, i Efrog Newydd lle clywodd am y Society for the Prevention of Cruelty to Children a sefydlwyd ym 1875. Dychwelodd ym 1882 i Brydain yn llawn brwdfrydedd a rhannodd ei feddyliau gyda Samuel Smith, AS

Rhyddfrydol Lerpwl. Y flwyddyn wedyn sefydlodd Waugh y Liverpool Society for the Prevention of Cruelty to Children. Lledodd y syniad trwy wledydd Prydain a sefydlwyd nifer o gymdeithasau tebyg. Cynhaliwyd cyfarfod gan y Farwnes Angela Burdett-Coutts yn y Mansion House, Llundain, ym mis Gorffennaf 1884 i sefydlu'r London Society for the Prevention of Cruelty to Children. Yma penodwyd Benjamin Waugh yn Ysgrifennydd Mygedol ac yr oedd ei gyfraniad i'r gymdeithas yn amhrisiadwy.

Dau nod oedd gan y gymdeithas sef amddiffyn plant rhag creulondeb a gwarantu deddfwriaeth a fyddai'n rhoi iddynt warchodaeth gyfreithiol. Roedd llawer o'r hyn a gyflawnwyd gan y gymdeithas yn y blynyddoedd dilynol o ganlyniad i weledigaeth ac egni Waugh.

Roedd 1889 yn flwyddyn bwysig, oherwydd dyma pryd y penderfynodd 31 o gymdeithasau amddiffyn plant Gwledydd Prydain – pob un ar wahân i Lerpwl – uno gyda'i gilydd gan fabwysiadu'r enw National Society for the Prevention of Cruelty to Children. Daeth y Frenhines Victoria yn noddwr i'r gymdeithas. Yn yr un flwyddyn cafwyd deddfwriaeth Atal Creulondeb tuag at Blant. Am bum mlynedd ymgyrchodd Waugh yn frwdfrydig am hyn a daeth yn gymeriad cyfarwydd yng nghyntedd Tŷ'r Cyffredin wrth iddo ddadlau ei achos gydag Aelodau Seneddol.

Mantais y ddeddf hon oedd y rhoddai hawl i'r heddlu arestio unrhyw un oedd yn cam-drin plant a chael gwarant i fynd i dŷ os oedd amheuaeth o gam-drin. Rhoddai hefyd ganllawiau pendant ynglŷn â chyflogi plant ac fe'u gwaharddwyd rhag cardota ar y stryd.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf cyflogwyd dau archwiliwr i ymdrin â'r cannoedd o achosion a ddaeth i sylw'r gymdeithas. Erbyn 1905 roedd 198 archwiliwr yn gweithio o fil o ganolfannau. Oherwydd pwysau gwaith a salwch bu'n rhaid i Waugh ymddeol ym 1905. Bu farw dair blynedd yn ddiweddarach ar 11 Mawrth 1908 yn Westcliffe-on-Sea, Essex, a chladdwyd ei gorff ym mynwent bwrdeistref Southend.